

|                   |                                                      |                                                                                     |
|-------------------|------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------|
| Adroddiad i       | <b>Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru</b>           |  |
| Dyddiad           | <b>28 Ebrill 2025</b>                                |                                                                                     |
| Swyddog Arweiniol | <b>Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</b> |                                                                                     |
| Swyddog Cyswllt   | <b>Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael</b>     |                                                                                     |
| Pwnc              | <b>Cadarnhad o'r Gyllideb ar gyfer 2025/26</b>       |                                                                                     |

## **PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddarau Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y gyllideb refeniw a chyfalaf derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

## **CRYNODEB GWEITHREDOL**

- 2 Cadarnhaodd yr Awdurdod y gyllideb o £52.389 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025, gan gynnwys defnyddio £0.601m o gronfeydd wrth gefn. Ar y pryd roedd ansicrwydd eithriadol mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith gwasanaethau argyfwng oherwydd her gyfreithiol genedlaethol a nodwyd risg gynllunio o £0.5m. Mae'r mater hwn bellach wedi'i ddatrys ac mae'r rhagdybiaeth gynllunio yn parhau i fod yn ddilys.
- 3 Roedd y gyllideb refeniw yn cynnwys cyllid cyfalaf i gefnogi'r rhaglen gyfalaf o £6.103 miliwn a ariannwyd gan fenthyciad. Yn ogystal, cymeradwywyd gwariant o £2.100 miliwn a ariennir drwy gronfeydd wrth gefn gan yr Awdurdod yn y cyfarfod ym mis Hydref 2024 i gefnogi prosiect y ganolfan hyfforddi.
- 4 Er gwaethaf rhagolygon cadarnhaol ar gyfer y gyllideb, mae angen bod yn wiliadwrus ynghylch effeithiau posibl gan faterion cadwyn gyflenwi fyd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol.

## **SYLWADAU GAN BWYLLGORAU ERAILL**

- 5 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i ystyried o'r blaen gan bwyllgorau eraill.

## ARGYMHELLIAD

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

- i) Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw derfynol o £52.389 miliwn;
- ii) Cymeradwyo'r gwaith o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn sy'n dod i gyfanswm o £0.601 miliwn;
- iii) Cymeradwyo Cyllid Cyfalaf o £6.103 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26;
- iv) Cymeradwyo'r defnydd o gronfeydd wrth gefn i dalu costau datblygu o oddeutu £2.100 miliwn ar gyfer y ganolfan hyfforddi yn ystod y flwyddyn; a
- v) Sylwi ar yr effeithiau posibl o faterion cadwyn gyflenwi fyd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol, a allai effeithio ar gynllunio ariannol yn y dyfodol.

## CEFNDIR

- 7 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys, y mae'n rhaid i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo. Rhaid cyfleu'r ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
- 8 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.
- 9 Yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 ac yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023, mae cynigion y gyllideb yn seiliedig ar gynnal y model presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r gwaith ar gynlluniau i wella argaeledd mewn ardaloedd gwledig yn mynd rhagddo a'r tu hwnt i gwmpas y papur hwn sy'n gosod y gyllideb.
- 10 Cafodd y broses ei goruchwyllo gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodau sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar bum achlysur rhwng Mehefin a Thachwedd 2024.

## GWYBODAETH

- 11 Cadarnhawyd bod y gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26 yn £52.389 miliwn. Cadarnhawyd bod cyllid o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant anghylchol o £0.601 miliwn yn lleihau'r effaith ar yr ardoll ac yn sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac effeithlonrwydd gweithredol yr Awdurdod.
- 12 Yn ystod y broses o bennu'r gyllideb, nodwyd bod risg eithriadol mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith gwasanaethau argyfwng. Y gyllideb a ddyrannwyd oedd £0.463 miliwn er y nodwyd y gallai hyn gynyddu £0.500 miliwn pe bai'r her gyfreithiol genedlaethol yn methu yn yr apêl. Ers hynny, canfu'r llys apêl o blaid y gwasanaethau argyfwng ac er bod risg fach yn parhau, mae'r canlyniad yn cadarnhau'r rhagdybiaeth gynllunio.
- 13 Nodir nad yw trafodaethau dyfarnu cyflog ar gyfer pob grŵp staff wedi'u cwblhau eto ac mae hyn yn parhau i fod yn risg barhaus.
- 14 Mae'r gyllideb refeniw derfynol yn cynnwys costau ariannu cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyfalaf o £6.103 miliwn. O'r £6.103 miliwn, mae £3.275 miliwn wedi'i ddyrannu i achosion busnes a gymeradwywyd drwy gydol y broses graffu ar y gyllideb yn ystod 2024/25, fel y manylir yn [Atodiad 1](#).
- 15 Bydd y balans cyfalaf sy'n weddill yn cael ei ddyrannu i'r adrannau priodol ar ôl cymeradwyo eu hachosion busnes mewn cyfarfod Ffurfiol Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pob prosiect yn cyd-fynd ag amcanion strategol ac yn darparu gwerth am arian.
- 16 Yn ogystal â'r rhaglen gyfalaf, ym mis Hydref 2024 rhoddodd yr Awdurdod gymeradwyaeth i ddatblygu opsiwn hyfyw ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd. Gyda ffocws ar fforddiadwyedd ac opsiynau ariannu cynaliadwy, bydd y cynigion terfynol yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod ym mis Hydref 2026. Mae costau interim o £2.100 miliwn wedi'u cymeradwyo a byddant yn cael eu hariannu drwy gronfeydd wrth gefn. Mae adroddiadau diweddarau ar gynnydd yn cael eu hadrodd ar wahân fel eitem sefydlog ar agenda'r Awdurdod.
- 17 Er gwaethaf rhagolygon cadarnhaol ar gyfer y gyllideb, mae angen bod yn wiliadwrus ynghylch effeithiau posibl gan faterion cadwyn gyflenwi fyd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol. Gall y ffactorau hyn arwain at gostau cynyddol ac aflonyddwch posibl wrth gyflwyno'r gwasanaethau, gan roi heriau sylweddol i gynllunio ariannol yn y dyfodol.
- 18 I'r gwrthwyneb, gall anwadalrwydd y farchnad arwain at gyfraddau llog is, a thrwy hynny leihau cost benthyca. Darperir cyngor ar Reoli'r Trysorlys gan gynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod i sicrhau bod benthyca yn parhau i fod yn unol â'r terfynau cymeradwyo ac ar y cyfraddau mwyaf manteisiol.

## GOBLYGIADAU

|                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|--------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Amcanion Llesiant                    | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod.                                                                                                                                                                                               |
| Cyllideb                             | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi gofyniad cyllideb o £52m.                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Cyfreithiol                          | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig.                                                                                                                                                                                                    |
| Staffio                              | Mae 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor hanfodol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog sy'n parhau yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd ar alwad a gwella gwydnwch corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb.                                                                                                                                                                                                                                         |
| Risgiau                              | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2025/26 wedi'u dogfennu o'r blaen gyda'r papur yn tynnu sylw at risgiau pellach ynghylch materion cadwyn gyflenwi fyd-eang, tariffau, a phrisiau cynyddol.                                                                                                                |

## Atodiad 1 – Cynllun Cyfalaf 2025/26

| Enw/Disgrifiad o'r Prosiect                          | Adran                         | Cyllid sydd wedi ei Gymeradwyo |
|------------------------------------------------------|-------------------------------|--------------------------------|
| Peiriannau Tân (5 peiriant wedi'u harchebu yn 24/25) | Fflyd                         | £1,035,307                     |
| Amnewid Tyrau Hyfforddi dur (dau)                    | Hyfforddiant                  | £250,000                       |
| Amnewid Waliau Tân                                   | TGCh                          | £72,000                        |
| Amnewid Protocol Rhaglen Di-wifr                     | TGCh                          | £160,000                       |
| Gwybodaeth Terfynell Data Symudol                    | TGCh                          | £330,000                       |
| Radios Safleoedd Tân                                 | TGCh/Gweithrediadau Technegol | Cyllid Grant yn 24/25          |
| Amnewid Halmatro                                     | Gweithrediadau Technegol      | £65,000                        |
| Gwaith Ailosod Toi - Y Fflint a Bae Colwyn           | Cyfleusterau                  | £180,000                       |
| Rhaglen amnewid Drysau Bae Peiriannau                | Cyfleusterau                  | £350,000                       |
| Gwaith ailweirio trydanol                            | Cyfleusterau                  | £165,000                       |
| Gwaith uwchraddio i ffreutur y Rhyl                  | Cyfleusterau                  | £30,000                        |
| Gwaith uwchraddio Bangor                             | Cyfleusterau                  | £200,000                       |
| Amnewid Larwm Tân                                    | Cyfleusterau                  | £80,000                        |
| Uwchraddio diogelwch                                 | Cyfleusterau                  | £130,000                       |
| Arolygiadau ECIR ar draws pob gorsaf                 | Cyfleusterau                  | £100,000                       |
| Systemau Gwresogi a Dŵr Poeth                        | Cyfleusterau                  | £128,000                       |
| <b>Cyllid wedi'i ddyrannu</b>                        |                               | <b>£3,275,307</b>              |
| <b>Cyllid i'w ddyrannu</b>                           |                               | <b>£2,827,693</b>              |
|                                                      | <b>Cost Ddangosol</b>         |                                |
| Peiriant cyrraedd yn uchel                           | Fflyd                         | £750,000                       |
| Uned Achub Dechnegol                                 | Fflyd                         | £600,000                       |
| Cerbydau Ysgafn                                      | Fflyd                         | £721,693                       |
| Cerbydau Arbennig Ysgafn                             | Fflyd                         | £163,888                       |
| Cyfarpar                                             | Gweithrediadau Technegol      | £232,000                       |
| Uned Rheoli newydd yn y Rhyl                         | Fflyd                         | £75,000                        |
| Cludwr ewyn                                          | Fflyd                         | £75,000                        |
| Cynllun amnewid Uned Achub Technegol                 | Gweithrediadau Technegol      | £200,000                       |
| Blancedi Cerbydau Trydan                             | Gweithrediadau Technegol      | £45,000                        |
| <b>Cyfanswm</b>                                      |                               | <b>£2,862,581</b>              |
| Diffyg                                               |                               | £34,888                        |